Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

8 Gorffennaf 2020

Annwyl Kirsty

**Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020**

Yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020, trafodwyd **Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020**. Yn ein **hadroddiad**, a osodwyd gerbron y Senedd ar 6 Gorffennaf 2020, nodwyd dau bwynt o dan Reol Sefydlog 21.7(v). Mae'r ail bwynt adrodd yn ymwneud â'r cyfnod y mae'r Hysbysiad yn berthnasol iddo.

O ddarllen yr Hysbysiad, ymddengys i ni bod y datgymhwyso yn gymwys yn ystod y cyfnod rhwng 24 Mehefin 2020 a 23 Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, yn eich datganiad ysgrifenedig dyddiedig 23 Mehefin 2020, rydych yn nodi y bydd yr Hysbysiad yn gymwys "rhwng 22 Mehefin a 21 Gorffennaf". Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau mai'r cyfnod a nodir yn ffurfiol yn yr Hysbysiad yw'r cyfnod rhybudd cywir a fwriedir. Hefyd, byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid rhoi unrhyw eglurhad angenrheidiol o'r fath i randdeiliaid perthnasol.

Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch a ydych yn disgwyl cyhoeddi unrhyw hysbysiadau datgymhwyso pellach wedi i'r hysbysiad presennol ddod i ben neu ai unig fwriad yr hysbysiad presennol hwn oedd cyd-fynd â diwrnod olaf y tymor ysgol a drefnwyd yng Nghymru.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565